Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Ein cyf: RD/LK/SMPI24
Dyddiad: 9 Chwefror 2024

Annwyl riant/gofalwr

Pris prydau ysgol yn codi ar 19 Chwefror 2024

Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi codi pris prydau ysgol ers 2017 ac, am £2.20 a £2.50 am bryd gosod yn ein hysgolion cynradd ac uwchradd, yn y drefn honno, mae'r cyngor wedi cynnig y prydau ysgol rhataf yng Nghymru yn gyson.

Fodd bynnag, oherwydd y cynnydd sylweddol mewn costau ynni a bwyd, mae'r cyngor wedi penderfynu bod angen codi pris prydau ysgol o 10 Chwefror 2024 ymlaen yn ei hysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, fel a ganlyn:

Disgyblion oedran cynradd (o 19 Chwefror 2024 ymlaen mewn ysgolion cynradd ac arbennig)

I'r grwpiau hynny nad ydynt, ar hyn o bryd, yn manteisio ar y cynllun Prydau Ysgol am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd (sef Blwyddyn 4, Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 ar hyn o bryd), bydd cost pryd ysgol yn codi i **£2.50**. Bydd y cyllid dyddiol sydd ar gael i ddisgyblion ysgolion cynradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) hefyd yn codi i **£2.50**.

Mae'n bwysig nodi mai cynnydd dros dro yw hwn ac, o 8 Ebrill 2024 ymlaen, bydd disgyblion Blwyddyn 4 yn gymwys i fanteisio ar y cynllun Prydau Ysgol am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd a bydd hyn yn ehangu i Flwyddyn 5 a Blwyddyn 6 ym mis Medi 2024 pan fydd yr holl ddisgyblion ysgolion cynradd yn gallu manteisio ar y rhaglen.

Disgyblion oedran uwchradd (o 19 Chwefror 2024 ymlaen mewn ysgolion uwchradd ac arbennig)

Bydd disgyblion ysgolion uwchradd, yn draddodiadol, yn prynu bwyd ar ffurf bwyd cafeteria, a bydd eu bwydydd yn amrywio o ran cynnwys a gwerth. Fodd bynnag, am bryd poeth gosod (mewn ysgolion uwchradd ac arbennig), bydd y pris yn codi i **£2.80**. Bydd y cyllid dyddiol a fydd ar gael i ddisgyblion eFSM uwchradd hefyd yn codi i **£2.80**.

Diolch i chi am eich dealltwriaeth yn y cyswllt hwn.

L J Harvey

Lindsay Harvey
Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Chymorth i Deuluoedd)

Ffôn/Tel: 01656 643643 Facs/Fax: 01656 668126 Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk
Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014 Twitter@bridgendCBC Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk
Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun
Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith
We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh